

POLISI DIOGELU DATA

CYNNWYS

1. TAFLEN ADOLYGU	3
2. Pwrpas.....	4
3. Sgôp	4
4. Cyfrifoldebau.....	4
5. Manylion y Polisi	4
6. Cydraddoldeb ac Amrywiant	10
7. Adolygu.....	10

1. TAFLEN ADOLYGU

Rhifyn	Disgrifiad Byr dros y rheswm am newid	Perchennog y Ddogfen	Dyddiad Rhannu
1	Dogfen newydd	Marie Wild	Mawrth 2010
2	Ehangu cynnwys y ddogfen a newid pennawd y ddogfen	Geraint G Jones	Rhagfyr 2011

2. Pwrpas

- 2.1 Mae Cartrefi Cymunedol Gwynedd Cyf (CCG) yn Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru (LIC). Sefydlwyd CCG, ymhlith pethau eraill, i redeg gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y lleol gan dorri'n rhydd o gyfyngiadau'r gwasanaeth cyhoeddus a oedd yn bodoli i ddarparu safonau buddsoddi a gwasanaeth uwch mewn dull a oedd yn atebol yn lleol ac yn gyhoeddus. Mae gan bob cwsmer i CCG hawl i ddisgwyl y safonau uchel un o ymddygiad gan ei weithwyr ac Aelodau'r Bwrdd.
- 2.2 Pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod rheolau effeithiol yn cael eu mabwysiadu fel bod CCG yn cael ei reoli a gweinyddu yn effeithiol, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r polisi hwn yw ceisio amddiffyn a hybu hawliau unigolion a CCG mewn perthynas â dal gwybodaeth bersonol a chyfrinachol. Mae'n nodi y dylai gwybodaeth gael ei drin yn gyfrinachol, a'r gweithdrefnau ar gyfer casglu, storio, trin a datgelu gwybodaeth o'r fath.

3. Sgôp

- 3.1 Mae'r polisi hwn ar gyfer Aelodau'r Bwrdd ac aelodau o staff CCG, rhai ar gytundebau parhaol a dros dro ac yn berthnasol i'r holl ymgynghorwyr a phobl eraill sy'n ymdrin â data personol ar ran CCG.

4. Cyfrifoldebau

- 4.1 Cyfrifoldeb y Swyddog Diogelu Data yw adolygu a diweddarau'r polisi hwn. Cyfrifoldeb y rheolwyr llinell yw sicrhau bod y polisi yn cael ei gyfathrebu i staff a phobl eraill gan sicrhau eu bod yn cadw ato.

5. Manylion y Polisi

- 5.1 I sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol, mae CCG yn casglu, cadw a phrosesu gwybodaeth bersonol a chyfrinachol am ei weithwyr, aelodau'r Bwrdd, tenantiaid, ymgeiswyr am dai, rhai sydd wedi ceisio am swyddi a chyflenwyr. Mi fydd y wybodaeth hon yn cael ei phrosesu'n unol â Deddf Diogelu Data 1998 (y Ddeddf) ac mae'n cydymffurfio â Fframwaith Rheolaethol Llywodraeth Cymru.
- 5.2 Mae CCG, fel ceidwad data personol, yn cydnabod ei ddyletswydd gyfreithiol fel rheolydd data i sicrhau bod y data yn cael ei drin yn gywir a chyfrinachol bob amser, dim ots os yw ar bapur neu ar ffurf electronig. Mae'r hyn yn para dros oes y data, gan gynnwys:
- Casglu data personol;
 - Cadw a diogelu data personol;

- Defnyddio data personol; a
 - Cael gwared/dinistrio data personol;
- 5.3 Mae CCG yn ystyried bod trin gwybodaeth bersonol yn gyfreithlon a chywir yn hanfodol i weithredu'n llwyddiannus ac i gynnal hyder rhwng CCG a'r rhai y mae'n gwneud busnes â hwy.
- 5.4 Mi fydd CCG yn cydymffurfio â'r Ddeddf wrth brosesu data personol a bydd yn darparu gwybodaeth sydd ar gael yn syth, yn glir a chywir a chyingor ar gyfer preswylwyr.
- 5.5 Mi fydd CCG yn sicrhau bod unrhyw gais am fynediad i ddata personol yn cael ei drin yn gywir, yn brydlon ac o fewn amserlen sy'n cael ei osod yn y Ddeddf gan sicrhau bod gan un ai goddrych y data neu eu cynrychiolwyr awdurdodedig hawl i wybodaeth o dan y Ddeddf, a bod y wybodaeth sydd wedi ei ddarparu yn glir a ddiamwys.
- 5.6 Mi fydd CCG yn sicrhau bod gan oddrych y data fynediad addas, pan fydd cais ysgrifenedig yn cael ei wneud, i fanylion yn ymwneud â gwybodaeth bersonol yn ymwneud â nhw. Mi fydd CCG yn gofyn am dâl gweinyddol fel mae paragraff 5.23 y polisi hwn yn nodi.
- 5.7 Caiff data personol ei ddiffinio fel data yn ymwneud â pherson byw a all gael ei adnabod o:
- Bod data a gwybodaeth arall sydd ym meddiant, neu sy'n debygol o ddod i feddiant y rheolydd data, a'i fod yn cynnwys mynegiant o farn am yr unigolyn ac unrhyw arwydd o fwriad y rheolydd data, neu unrhyw berson arall o ran yr unigolyn.
- 5.8 Caiff data personol sensitif ei ddiffinio fel data personol sy'n cynnwys gwybodaeth am:
- Tarddiad hil neu ethnig;
 - Barn wleidyddol;
 - Cred wleidyddol neu arall;
 - Aelodaeth o'r undeb lafur;
 - Cyflwr corfforol neu iechyd meddwl;
 - Bywyd rhywiol; a
 - Achosion cyfreithiol neu euogfarnau.
- 5.9 Mae pob agwedd o'r polisi hwn wedi ei gynllunio i aros o fewn wyth egwyddor ar gyfer prosesu data personol sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf, sef:

- 1) Rhaid i ddata gael ei brosesu'n deg a chyfreithlon;
- 2) Bydd data yn cael ei feddu ar gyfer dibenion penodol a chyfreithiol a ni fydd yn cael ei brosesu ymhellach mewn dulliau nad ydynt yn cyd fynd â'r dibenion hynny;
- 3) Bod rhaid i ddata sydd wedi ei brosesu fod yn ddigonol, perthnasol ac nid yn ormodol;
- 4) Rhaid i ddata fod yn gywir a chael ei gadw'n gyfoes;
- 5) Ni ddylai data gael ei gadw yn hirach nag sy'n ofynnol;
- 6) Rhaid i ddata gael ei brosesu yn unol â hawliau goddrych y data;
- 7) Rhaid i ddata gael ei gadw'n ddiogel; a
- 8) Ni ddylai'r data gael ei drosglwyddo i wlad tu allan i'r Ardal Ewropeaidd Economeg, lle nad oes yna gyfreithiau diogelu data digonol.

5.10 Mae'r polisi hwn wedi ei gynllunio i sicrhau bod gan goddrych y data:

- Hawl i fynediad i'w data personol sydd wedi ei brosesu gan CCG;
- Yr hawl i atal prosesu sy'n debygol o achosi difrod neu drallod mawr;
- Yr hawl i iawndal am ddifrod (corfforol neu ariannol) sydd wedi ei ddiodef oherwydd bod CCG wedi mynd yn groes i'r Ddeddf;
- Yr hawl i ofyn am gywiriad, blocio, dileu neu ddinistrio data gwallus; a
- Hawl i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth asesu a yw data personol yn cael ei brosesu'n gyfreithiol gan CCG.

Cadw a thrin gwybodaeth

5.11 Caiff gwybodaeth gyfrinachol am weithwyr ei gadw gan yr adran Adnoddau Dynol, adran Gyllid, adran Lywodraethol ac adran TG.

5.12 Caiff gwybodaeth gyfrinachol yn ymwneud â thenantiaid, ymgeiswyr am dai, rhai sy'n gwneud cais am swydd a chyflenwyr eu cadw ar systemau cyfrifiadurol CCG, system e-bost a ffeiliau yn yr adrannau perthnasol.

5.13 Mi fydd unigolion yn cael gwybod pam bod CCG yn prosesu eu gwybodaeth bersonol ac i ba bartïon y mae CCG yn debygol o ryddhau'r wybodaeth.

5.14 Mi fydd CCG yn sicrhau bod hawliau pobl, lle caiff gwybodaeth ei ddal, yn cael ei ymarfer yn llawn o dan y Ddeddf. Mae'r rhain yn cynnwys: -

- Yr hawl i gael gwybod bod prosesu yn mynd ymlaen;
- Yr hawl i gael mynediad i wybodaeth bersonol eich hun o fewn y 40 diwrnod statudol;
- Yr hawl i atal prosesu gwybodaeth bersonol mewn amgylchiadau penodol; a
- Yr hawl i gywiro, atal neu ddileu gwybodaeth bersonol os bydd yn cael ei weld fel y wybodaeth anghywir.

5.15 Ni fydd CCG yn cadw gwybodaeth am hirach nac sydd rhaid.

5.16 Mi fydd holl reolwyr a gweithwyr o fewn Cyfarwyddiaeth CCG yn cymryd camau i sicrhau bod data personol yn cael ei gadw'n ddiogel bob amser yn erbyn mynediad heb ei awdurdodi neu fynediad anghyfreithlon, ei golli neu ei ddatgelu ac, yn enwedig, bydd yn sicrhau:

- Bod ffeiliau papur a chofnodion neu ddogfennau eraill sy'n cynnwys data personol/sensitif eu cadw mewn man diogel;
- Caiff data personol sydd ar systemau cyfrifiadurol eu diogelu gan ddefnyddio cyfrinair; a
- Mi ddylai cyfrineiriau unigol fod yn rhai na all gael eu darganfod yn hawdd.

5.17 Lle bo'n berthnasol, rhaid i'r holl gontractwyr, ymgynghorwyr, partneriaid neu unigolion neu sefydliadau sy'n gweithio ar ran CCG sy'n dal data personol sydd wedi eu darparu ar eu cyfer gan CCG:

- Sicrhau eu bod nhw a'u holl staff sydd gan fynediad i ddata personol sy'n cael ei brosesu ar ran CCG yn ymwybodol o'r polisi hwn, a'u bod yn ymwybodol o'u dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan y Ddeddf. Bydd torri unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf o ran 'Data CCG' yn debygol o gael ei weld fel ei fod o bosib yn torri'r gytundeb rhwng CCG a'r unigolyn, cwmni, partner neu ffyrn hwnnw;
- Caniatáu archwiliadau diogelu data gan CCG o ddata sy'n cael ei gadw ar ei ran (os caiff ei ofyn); a
- Digolledu CCG yn erbyn unrhyw erlyniadau, hawliadau, achosion, gweithredu neu daliadau iawndal neu gostau a gafodd eu creu gan eu bod nhw wedi cam-drin data personol CCG.

5.18 Mi fydd staff sy'n ymdrin â gwybodaeth bersonol ac yn benodol data personol sensitif yn sicrhau bod y wybodaeth hon yn aros yn gyfrinachol.

- 5.19 Mi fydd gwybodaeth sy'n ymwneud â cheisiadau sydd wedi eu gwneud gan ddarpar weithwyr yn cael ei gadw am gyfnod o amser sydd ddim yn fwy na un mlynedd o ddyddiad cau'r hysbyseb. Ar ôl y cyfnod hwn, mi fydd ffurflenni cais ymgeiswyr sydd heb eu dewis i'w cyflogi yn cael eu dinistrio. Efallai na fydd gwybodaeth ddiennw yn cael ei gadw, gan gynnwys ystadegau cyfleoedd cyfartal ymgeiswyr ar gyfer pob swydd sydd wedi ei hysbysebu.
- 5.20 Mi fydd gwybodaeth yn ymwneud â thenantiaid a cheisiadau am dai (cyfeiriad penodol at y gofrestr tai cyffredinol yn cael ei gynnwys yn y polisi terfynol) yn cael eu cadw cyn hired ag sydd raid er mwyn perfformio swyddogaethau CCG.
- 5.21 Mi fydd ffurflenni cais am swyddi yn cynnwys paragraff yn amlinellu sut bydd y wybodaeth bersonol sydd wedi ei ddarparu ar y ffurflen gais yn cael ei ddefnyddio a chael caniatâd yr ymgeisydd. Mi fydd tenantiaid ac ymgeiswyr am dai yn cael gwybod yn ysgrifenedig o'r hyn o wneir a phwrpas prosesu'r data a rhoddi ar ffurflenni cais CCG.
- 5.22 Dim ond pan fydd hi'n hollol ofynnol y bydd data personol yn cael ei gadw ar ddyfeisiadau cludadwy. Pan fydd hi'n ofynnol cadw gwybodaeth ar ddyfeisiadau llaw yna mi fydd rhaid rhoi'r amodau canlynol ar waith:
- Rhaid mai CCG sy'n berchen ar y dyfeisiadau;
 - Rhaid i ddilysiad cyfrinair gael ei gymhwyso;
 - Lle bo hyn yn bosib, dylai data personol gael ei amgryptio;
 - Dim ond y nifer lleiaf o ddata personol gofynnol ar gyfer y diben ddylai gael ei gadw ar y dyfeisiadau ac yna dylai gael ei ddileu pa na fydd ei angen mwyach; a
 - Rhaid cael mesurau mewn lle gael i uchafu diogelwch dyfeisiadau llaw.

Datgelu Gwybodaeth

- 5.23 Mi fydd CCG yn codi ffi weinyddol ar bob cais ysgrifenedig a dderbynnir i gael mynediad i ddata personol a gaiff ei brosesu gan CCG, y gost bresennol yw £10.00.
- 5.24 Mae CCG yn casglu gwybodaeth bersonol i brosesu ceisiadau ar gyfer gweithgareddau ceisiadau am dai sy'n ymwneud â thenantiaethau gan gynnwys darpariaeth o wasanaethau i'n tenantiaid. Efallai bydd y wybodaeth a ddarparir i CCG yn cael ei rannu gyda thrydydd parti, sy'n

ymddwyn ar ran CCG ar gyfer darparu rheolaeth dros dai a gwasanaethau tenantiaeth neu ar gyfer dibenion eraill sydd wedi ei gymeradwyo gan oddrych y data neu sy'n cael ei ganiatáu gan y Ddeddf. Gall Gwybodaeth Bersonol gael ei rannu gyda chyrrff statudol megis swyddogion budd dal tai Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer dibenion atal troseddu. Heblaw ei fod yn ofynnol i wneud yn ôl y gyfraith, ni fydd CCG fel arall yn rhannu gwybodaeth bersonol heb ganiatâd goddrych y data.

Gwaredu ar Wybodaeth

5.25 Lle na fydd angen gwybodaeth bersonol a chyfrinachol mwyach, mi fydd yn cael ei ddinistrio yn unol â gofynion y Ddeddf,

Hyfforddiant a chyfrifoldeb

5.26 Mi fydd CCG yn sicrhau bod gan rywun sydd â chyfrifoldeb penodol am gasglu a gwaredu gwybodaeth yn wybodaeth am faterion yn ymwneud â diogelwch wybodaeth, y Ddeddf, a deddfwriaeth eraill berthnasol. Y person hwn fydd swyddog Diogelu Data CCG.

5.27 Mae'n gyfrifoldeb ar yr holl staff ac aelodau'r Bwrdd cynnal cyfrinachedd wrth ymdrin â data personol.

5.28 Mi fydd torri'r Ddeddf a'r polisi hwn yn cael ei drin fel mater difrifol.

5.29 Mi fydd gweithwyr yn cael gwybod am y polisi hwn drwy ddigwyddiadau ymwybyddiaeth, ac ar gyfer gweithwyr newydd, mi fydd yn cael ei gynnwys yn eu cwrs cyflwyno.

5.30 Mae'n gyfrifoldeb ar bob aelod staff roddi gwybod i uwch reolwr pan fyddant yn dod i wybod am unrhyw dor i'r Ddeddf hon. Yr uwch reolwr sy'n gyfrifol am adrodd am dor i'r Swyddog Diogelu Data a chymryd y camau priodol pan fydd yn cael gwybod am hyn.

5.31 Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

Cwynion

5.32 Os bydd person yn credu bod CCG wedi ymddwyn yn groes i'r Ddeddf neu heb gwrdd â'i ymrwymadau o fewn y polisi hwn, dylent gwyno drwy ddefnyddio Polisi Cwynion CCG.

Apeliadau

5.33 Mae gan unrhyw ymgeisydd sy'n anfodlon gydag unrhyw benderfyniad sydd wedi ei wneud ar ran y polisi hwn atebolrwydd i Bolisi Cwynion CCG.

6. Cydraddoldeb ac Amrywiant

6.1 Mae CCG yn ymwybodol o'i oblygiadau fel cyflogwr o dan y Ddeddf Gydraddoldeb ac nid oes yna unrhyw oblygiadau amrywiant ynghlwm i'r polisi hwn.

7. Adolygu

7.1 Mi fydd ffeiliau a chofnodion perthnasol yn cael eu monitro yn rheolaidd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi hwn.

7.2 Mi fydd y polisi yn cael ei adolygu bob dwy flynedd i sicrhau ei fod yn effeithiol a'i fod yn cydymffurfio ag ymarfer da presennol. Mi fydd adolygiad yn cael ei wneud yn gynt os bydd yna unrhyw newid i ofynion statudol neu os bydd y polisi neu'r ddeddf yn cael eu torri.